www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Gorffennaf 11, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gwenan Owen ac Eleri Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gareth Ellis.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 13, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan Llinos Williams .

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mehefin 13, 2023**

Eitem 6.ch. Rhoddwyd yr hysbysiad (Cymraeg a Saesneg) ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrddau (16/6/2023).

Eitem 8.b. Llythyr ateb (16/6/6) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymddiheuro am fyr-rybudd am yr hyfforddiant Mi fyddan yn rhoi gwybod inni os daw le ar gael ar gyfer 23 Mehefin.

Llythyr (21/6/2023) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod mae le i 2 ar gyfer hyfforddiant ar 23 Mehefin yn The National Building Centre, Llanrwst..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 6.b.2. Mae angen mabwysiadwyd a chymeradwywyd Cynllun Hyfforddiant yr aelodau. Anfonwyd copi o'r Cynllun Hyfforddiant i'r Aelodau.

Cafodd y Cynllun Hyfforddiant i'r Aelodau ei fabwysiadu a'i chymeradwyo. Penderfynwyd rhoi y Cynllun ar ein gwefan.

Eitem 6.b.3. Anfonwyd llythyr (16/6/2023) i Un Llais Cymru yn gofyn am eu barn am ein penderfyniad i ofyn y contractwyr cyflwyno eu billiau mewn dau neu mwy o rannau.

Cafwyd llythyr ateb (19/6/2023) gan Un Llais Cymru yn dweud nid oedd yn gywir i ni ofyn y contractwyr i gyflwyno eu biliau mewn dau neu mwy o rannau. Maent yn awgrymu:

1. i ni ddiwygio y gwerthoedd yn ein Rheolau Ariannol neu
2. i'r aelodau ystyried ddim mynd allan i dendro oherwydd mae'r contractwr yn parhau i gwblhau gwaith i safon uchel ac mae'r Cyngor yn cael gwerth da o'u harian.

Mae angen rhoi penderfyniad 1. neu 2. yn ein cofnodion.

Er hynny, gyda thair blynedd wedi mynd heibio ers cael prisiau i wneud gwaith (2017) maent yn awgrymu i ni gael tri phris y tro nesaf fel mae'n cael ei roi yn y Rheolau Ariannol. Os dim ond un pris bydd ar gael maent yn awgrymu i'r aelodau ei dderbyn, gyda chyngor ar safon y gwasanaeth mae'r contractwr yn ei roi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

3. I ddatrys y mater, cafodd Eitem 11.1.g . o'n Rheoliadau Ariannol ei newid gyda chymorth Elfed.

Mae Eitem 11.1.g. o'r Rheolau yn darllen: Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn llai na £1,000 ac yn fwy na £100 bydd y Clerc yn ceisio cael 3 amcanbris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

<u>Penderfynwyd</u> newid yr Eitem i: Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael hyd at dri dyfynbris (disgrifiadau wedi'u prisio o'r hyn y bwriedir ei gyflenwi); pan mae eu gwerth yn llai na £1,000 ac yn fwy na £100 bydd y Clerc yn ceisio cael mwy nag unamcanbris. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.

Fel hyn, fyddai'r Clerc ddim wedi'i glymu i gael yr union rif. Cyn belled â bod y Clerc wedi trïo cael mwy nag un pris, fyddai methu â'u cael ddim yn rhwystro'r Cyngor rhag symud ymlaen. Sylwer mai 'dyfynbris' (=*quotation*) ydy'r cyntaf ac 'amcanbris' (=*estimate*) ydy'r ail.

Bydd Rheoliadau Ariannol yn cael eu newid, yn Gymraeg a'r Saesneg, i gynnwys y newid i Eitem 11.1.g..

Eitem 9.d. Llythyr (20/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gydag Agenda a Ffurflen Archebu Cynhadledd Arfer Arloesol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**5. Materion Ariannol**

a. Bil (4/7/2023) am £2,035.29 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed am dorri gwair llwybrau cyhoeddus cymuned Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £2,073.60).

Penderfynwyd talu'r swm.

b. Balans yn y banc ar 29/6/2023: £10,556.20. (29/6/2022: £10,273.99).

**6. Archwilio**

a. Llythyr (7/7/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn holi pam bod gostyngiad yn werth ein hasedau sefydlog a chafodd ased ei werthu a chafwyd arian o'i werthu.
Rhoddwyd gwybod (7/7/2023) iddynt y rheswm am y gostyngiad yw nid ydym mwyach yn gyfrifol am Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Roedd y Toiledau dan brydles Cyngor Gwynedd ac oherwydd hynny ni chafodd yr adeilad ei werthu a ni chafwyd arian i ymadael a'r adeilad.

b. Llythyr (7/7/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn gofyn am lythyr gan yr aelodau yn cadarnhau eu bod yn gwrthod y taliad o £150.
Rhoddwyd gwybod (7/7/2023) iddynt bydd llythyr gan yr aelodau yn cael ei anfon iddynt gyda'r post.

Hefyd roeddynt yn gofyn am gopi o'n gyllideb 2022-2023.
Rhoddwyd copi yddynt.

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/6/2023) oddi wrth Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata 20mya, Llywodraeth Cymru yn gwahodd ni i gyfarfod rhithwir 'Paratoi ar gyfer 20mya' ar Microsoft Teams dydd Llun 3 Gorffennaf 13:00 – 14:30. Mae manylion y cysylltiad yn y llythyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (23/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi dyddiadau hyfforddiant am fis Mehefin a Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Mynychodd Llinos Rowlands cwrs hyfforddiant 'New Councillor Induction'. Mi fydd yn gysur i'r Cyngor cael dweud wrth yr archwilwyr bod aelod wedi bod ar gwrs hyfforddiant.

c. Llythyr (29/6/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwyned yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud yn y gymuned ym mis Gorffennaf, 2023. Y gwaith bydd codi wal gynnal newydd o dan y ffordd yn lle yr un sydd wedi disgyn. Wal Glan y Morfa ar yr A496.

ch. Llythyr (4/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am y Grant Dichonoldeb newydd Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau draenio trefol cynaliadwy ar raddfa fach neu gynlluniau draenio cynaliadwy sef SuDS.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (4/7/2023) oddi wrth Uwch Swyddog Clwyf Gwywiad yr Onnen, Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen inni gael barn coedyddwr proffesiynol i arolygu coeden onnen sydd ar dir wrth Neuadd Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau. Anfonwyd y llythyr hefyd i Llinos Williams iddi roi gwybod am y goeden i gyfeillion y Neuadd. Cafwyd wybod mae'r goeden ar dir Mr David Smith, Swn yr Awel, Llanelltyd; anfonwyd y llythyr (5/7/2023) iddo yn rhoi gwybod am y goeden.

dd. Llythyr (6/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi ghwybod am eu Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Gorffennaf 12. Bydd y cyfarfod ar Zoom (mae'r llythyr yn cynnwys y linc). Y siaradwr fydd MAGNOX, Trawsfynydd.

Amgáu mae Agenda i Cyfarfod Blynyddol ac Agenda i Cyfarfod Arferol. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd ar nos Fercher 18 Ebrill 2023 gan ddefnyddio ZOOM.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (10/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn atgoffa am y cyfarfod a'r her mae cynghorau dref a chymuned yn wynebu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

 Llofnod: Dyddiad:

e. Llythyr (6/7/2023) oddi wrth MAGNOX, Trawsfynydd gyda gwahoddiad i sesiynau harddangosfa ar gamau nesaf i ddatgomisiynu Safle Trawsfynydd. Bydd y sesiynau yn ardal Trawsfynydd ac yn llyfrgelloedd cyhoeddus yr ardal.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Mae angen torri coed a gwair ar ffordd / llwybr wrth Pax Hill, Bont Ddu.

Penderfynwyd rhoi y mater i Cyngor Gwynedd.

b. Llythyr (11/7/2023) oddi wrth Pennaeth Economic a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gynllun y Cyngor i roi mynediad am ddim i Faes yr Eisteddfod i deuluoedd incwm isel.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Cafwyd cyfarfod ar safle Coed Maes-y-Garnedd gyda swyddogion Coedwigoedd i drafod gwaith maent am wneud yno. Maent am dorri coed sydd ddim yn ddiogel a gwneud mynedfa.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt nid yw'r Cyngor yn fodlon beth maent yn ei wneud yno.

**11. Materion Aelodau**

a. Materion yw trafod:

1. Bioamrywiaeth. Cafwyd lawer o syniadau beth allith ei wneud yn y gymuned..

2. Swydd y Clerc. Cafwyd trafodaeth ar swydd y Clerc. Nid oedd y Clerc yn bresennol yn y drafodaeth.

b. Mae Neuadd Bentref Bontddu angen llythyr gan y Cyngor i gefnogi eu bwriad i geisio cael grant gan Cyngor Gwynedd i ail wneud ychydig o waith yn y neuadd sef newid y boeler i foeler ynni effeithiol, cael ffenestri dwbl, ail wneud y gegin ac insiwleiddio'r neuadd. Dyddiad cau am y llythyr yw 14/7/23.

Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth iddynt.

----------